

## Cyngor Cymuned Dolbenmaen

### Nodiadau Cyfarfodydd

Dyddiad y cyfarfod  
Presennol

**6ed Ebrill, 2023.**

John Jones (Cadeirydd), Richard Parry (Bryncir), Michael Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen), Huw Pritchard, Sarah Jones, Raymond Jones (Pentrefelin), Richard Williams (Prenteg), Megan Lloyd Williams (Golan), Iddon Edwards, Jess Williams (Penmorfa), Stephen Churchman (Cyngorwr Sir Cyngor Gwynedd)

Croesawyd Jessica Williams a Raymond Jones i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor Cymuned.

Cydymdeimlwyd gyda Richard Parry a'i deulu yn dilyn ei brofedigaeth o golli Mam yng Nghyfraith, Mrs Dora Jones.

Ymddiheuriadau

Edward Evans (Bryncir), Gwilym Evans (Prenteg), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Clifford Williams (Garndolbenmaen), John Till (Golan), June Jones (Cyngorydd Sir Cyngor Gwynedd).

Datgan Buddiant

Neb

### Penderfyniadau

Etholiad 2022:

Mel ab Owain (Unllais Cymru) heb dderbyn ymateb i'w lythyr gan Reolwr Etholiadau ac wedi gorfod ail ysgrifennu atynt ac wedi anfon copi at y Prif Weithredwr y tro hwn. Awgrymwyd ein bod yn ysgrifennu at y Comisiwn Etholiadol.

Bwrdd Gwybodaeth Pentrefelin

Penderfynwyd gosod y bwrdd gwybodaeth wrth ymyl y fainc yng nghanol y pentref. Clerc i ofyn caniatâd.

Wedi derbyn amcan bris gan Saer lleol i  
greu'r ffrâm ar gyfer y bwrdd  
gwybodaeth  
- £457.50 + TAW.

Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol  
Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol

Trafodwyd yr adroddiad a gwnaed  
penderfyniadau i un a'i fabwysiadu neu i  
beidio mabwysiadu'r penderfyniadau. Ceir  
y penderfyniadau yn y cofnodion llawn.

Cais am arian:

Penderfynwyd rhoi rhodd ariannol o £300  
i Neuadd a Chae Chwarae  
Garndolbenmaen